# Sut ydyn ni'n deall Cwricwlwm i Gymru?

1. Croeso i ran gyntaf deunyddiau cymorth ymarferol Camau i'r Dyfodol lle rydym yn archwilio sut y gallem ddeall Cwricwlwm i Gymru o ran pa fodel o gwricwlwm y mae'n cyd-fynd ag ef, a pham mae deall hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y system.

2. Rhan o'r hyn a wnaeth y grŵp dylunio ar y cyd oedd ystyried heriau fel 'clymau' i'w datrys. Un her a nodwyd o dystiolaeth yng ngham 1 prosiect Camau i'r Dyfodol a'r grŵp dylunio ar y cyd sy'n gweithio yng ngham 2, oedd bod gweithwyr proffesiynol yn y system yn deall ac yn gwireddu Cwricwlwm i Gymru mewn ffyrdd gwahanol iawn. Yn ymarferol, mae'r gwahanol ffyrdd hyn o ddeall y cwricwlwm yn arwain at ddulliau gwahanol iawn o greu cwricwlwm yn ogystal â dulliau gwahanol iawn o addysgu a dysgu.

Mae'r dulliau a amlinellir yn y dystiolaeth yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth rymus, dysgu meistrolgar, syniadau mawr, dylunio tuag yn ôl, tacsonomegau dysgu, dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a dysgu drwy ymholiad.

Yr her gyda hyn, fel y mae Newton (2020) yn ei nodi, yw bod pob un o'r dulliau hyn yn tynnu ar wahanol gefndiroedd damcaniaethol ac yn cyd-fynd â modelau cwricwlwm gwahanol. Oherwydd hyn, mae rhai o'r rhain yn cyd-fynd yn llawnach nag eraill â'r dull o gynllunio'r cwricwlwm, dysgu ac addysgu a awgrymir gan fframwaith Cwricwlwm i Gymru.

Rydym yn esbonio aliniad yn fanylach yn yr adran archwilio pethau ymhellach, ond y pwynt allweddol i'w ystyried ar hyn o bryd, yw bod y gwahanol ddealltwriaethau hyn yn golygu bod y system yn tueddu i dynnu i gyfeiriadau gwahanol.

Nesaf mae gennym glip 5 munud o Jenny Poskitt, a siaradodd â ni am wireddu'r cwricwlwm a phwysigrwydd cyd-ddealltwriaeth ac eglurder gan helpu'r rhai yn y system i 'hedfan gyda'i gilydd'.

3. N/A

4. Mae 'Cwricwlwm i Gymru: Y Daith hyd at 2022' yn disgrifio'r cwricwlwm fel un sy'n cael ei arwain gan bwrpas, ond sut ydym ni'n deall hynny mewn theori ac ymarfer? Canfuom yn y grŵp dylunio ar y cyd fod gwybod am ddau gyd-destun yn ddefnyddiol i ddatrys y 'cwlwm' o dynnu i gyfeiriadau gwahanol yn ystod gwireddu'r cwricwlwm.

Y cyd-destun cyntaf yw bod Cwricwlwm i Gymru yn rhan o duedd ryngwladol yr unfed ganrif ar hugain o ran cynllunio cwricwlwm. Rydym yn esbonio mwy am hyn yn y ddwy sleid nesaf.

Yr ail gyd-destun yw bod gwahanol ffyrdd o feddwl am beth yw cwricwlwm a beth y dylai ganolbwyntio arno.

I archwilio hyn, byddwn yn defnyddio tair prif ffordd Vic Kelly o ddeall y cwricwlwm: Cwricwlwm fel cynnwys, cwricwlwm fel cynnyrch a chwricwlwm fel proses. Mae’r ffyrdd hyn o ddeall wedi cael eu galw’n fodelau neu’n ddulliau – Rydym yn defnyddio Kelly i feddwl am hyn oherwydd mae’n ymddangos i ni mai ei drosolwg ef yw’r mwyaf defnyddiol ar gyfer deall cynllun cwricwlwm mewn theori ac ymarfer.

Fel y dywedodd Mark Priestley yn ei bapur yn 2019, “Mae angen bod yn glir ar ba fodel sy’n cael ei ddefnyddio i sicrhau cydlyniad ac eglurder cysyniadol. Mae Kelly (1999) yn cynnig tri model archdeipaidd ar gyfer cynllunio’r cwricwlwm ac yn awgrymu bod cysylltiad annatod rhwng pob model a’r dibenion sylfaenol a’r cysyniadau o wybodaeth, yn ogystal ag addysgeg.” (Priestley, 2019)

Mae Priestley hefyd yn gwneud y pwynt ‘Gall y model cynllunio cwricwlwm penodol a amlinellir yn y fframwaith [cwricwlwm] gael dylanwad mawr ar addysgeg. Er enghraifft, gallai fframwaith sy’n pwysleisio’r cynnwys sydd i’w ddysgu annog dulliau addysgu sy’n canolbwyntio ar yr athro, tra gallai model sy’n seiliedig ar brosesau a sgiliau annog gweithgareddau sy’n canolbwyntio ar y myfyriwr.’

Felly, Beth mae’r cyd-destunau hyn yn ei olygu i Gwricwlwm i Gymru?

5. Mae’r ddau gyd-destun hyn yn bwysig oherwydd, wrth edrych ar draws dogfennaeth Cwricwlwm i Gymru, mae’n cyd-fynd â thuedd Cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain a chysyniad Kelly o gwricwlwm fel proses.

Dylai rhannu’r ddealltwriaeth hon helpu i ddylunio cwricwla lleol, addysgeg ac asesu sy’n cyd-fynd ac yn gydlynol â Chwricwlwm i Gymru fel un sy’n cael ei arwain gan bwrpas.

Byddwn yn dod yn ôl at y pwynt olaf hwn yn y sleid olaf, ond ar hyn o bryd, rydym yn mynd i ganolbwyntio ar ddau beth: yn gyntaf, beth yw tueddiad cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain ac, yn ail, y gwahanol fodelau cwricwlwm. Y gobaith yw y bydd gwneud hyn yn cefnogi cyd-ddealltwriaeth o Gwricwlwm i Gymru.

6. **Felly, beth yw tuedd cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain ?**

Defnyddir yr ymadrodd hwn i adlewyrchu symudiad mewn cwricwla diweddar i ffwrdd o gwricwla seiliedig ar gynnwys a phwnc tuag at gwricwla sy'n canolbwyntio ar gymhwysedd a sgiliau. Mae cwricwla’r unfed ganrif ar hugain yn helpu dysgwyr i ddatblygu (fel mae Suto ac Eccles yn dweud) ffyrdd o feddwl, gweithio a byw yn y byd. Mae gwledydd fel Seland Newydd, y Ffindir ac Awstralia i gyd wedi datblygu'r math hwn o gwricwlwm.

Mae’r newid hwn o gynnwys a phwnc, i gymhwysedd a sgiliau, yn cael ei adlewyrchu mewn sawl ffordd:

Mae tueddiad i symud oddi wrth amlinelliadau penodol o gynnwys a safonau perfformiad, i ffocws ehangach ar gynnydd datblygiadol dros amser.

Ochr yn ochr â hyn, mae tueddiad i rôl yr athro symud o fod yn un sy'n arwain dysgu i un sy'n hwyluso dysgu.

**Mae yna hefyd ffocws cryfach ar ddatblygiad cymdeithasol, personol a chymeriad o fewn addysg gyffredinol eang yn hytrach na datblygu gwybodaeth am gynnwys mewn ystod o bynciau.**

Os edrychwn ar Gwricwlwm i Gymru gallwn weld pwyslais ar y mathau hyn o agweddau datblygiadol ehangach. Er enghraifft, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn dweud 'Mae angen i ddysgwyr allu gwerthuso honiadau gwyddonol i helpu i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n effeithio ar ein hamgylchedd a'n lles, gan gynnwys ynghylch yr argyfwng hinsawdd a natur.' Yn Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, mae'n dweud: "Yn y Maes hwn, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio ieithoedd er mwyn bod yn effeithiol wrth ryngweithio, archwilio syniadau, mynegi safbwyntiau, gwybodaeth a dealltwriaeth a meithrin perthnasoedd."

7. Mae hyn yn cynrychioli newid polisi uchelgeisiol mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, fel y dywed Romaine Viennet yn ei phost blog Rhoi ffocws ar weithredu: Sut mae Cymru yn troi cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain yn realiti (Implementation in focus: How Wales is turning a 21st century curriculum into reality).

Mae hi'n ysgrifennu,

'Mae Cwricwlwm i Gymru yn cynrychioli symudiad polisi uchelgeisiol oddi wrth bolisi cwricwlwm blaenorol, o ran ei athroniaeth a'r rôl y mae'n ei rhoi i ysgolion ac athrawon. Disgwylir i'r polisi cwricwlwm newydd roi mynediad cyfartal i bob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i addysg eang a chytbwys o ansawdd uchel ym mhob maes dysgu. Ei nod yw helpu plant i symud ymlaen trwy brosesau dysgu cyfannol a rhyngddisgyblaethol, ac integreiddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.'

Mae pwynt Viennet hefyd yn pwysleisio nodweddion eraill cwricwlwm yr unfed ganrif ar hugain: maent yn tueddu i gael eu trefnu mewn meysydd dysgu ehangach gyda phwyslais ar ddysgu rhyngddisgyblaethol.

Gallwn weld hyn gyda Chwricwlwm i Gymru: mae wedi'i strwythuro o amgylch meysydd dysgu a phrofiad yn hytrach na phynciau traddodiadol, ac mae rhyngddisgyblaeth yn nodwedd bwysig. Nid oes ganddi safonau i'w hasesu yn eu herbyn na chanlyniadau dysgu â ffocws tynn – ac nid yw ychwaith yn cyflwyno maes llafur o gynnwys – ond mae ganddi ddisgrifiadau llawer ehangach o ddysgu sy'n rhoi synnwyr o gynnydd dros amser. Mae hyn yn darparu ar gyfer profiad addysgol eang yn hytrach nag un sy'n benodol iawn ac yn rhagnodol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn dal i fod yn rhan o wahanol feysydd o'r cwricwlwm, ond mae pwyslais cynyddol ar y sgiliau a'r prosesau dysgu. Yn hytrach na rhagflaenu'r hyn y dylai dysgwyr ei wybod, mae'r pedwar diben yn dal y nodweddion a'r sgiliau y bydd dysgwyr yn datblygu tuag atynt.

Gan symud ymlaen i'r ail gyd-destun, canfu'r grŵp dylunio ar y cyd fod y modelau cwricwlwm a drafodwyd gan Kelly yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth ymarferol o Gwricwlwm i Gymru.

Mae'r tri model hyn yn wahanol oherwydd bod ganddynt fannau cychwyn gwahanol ac maent **wedi'u hadeiladu ar** wahanol syniadau am rôl yr athro a natur y dysgu.

Yn y cyntaf o'r rhain – 'Cwricwlwm fel Cynnwys', y man cychwyn yw penderfynu ar y cynnwys i'w drosglwyddo i ddysgwyr.

Yn yr ail o'r rhain - 'Cwricwlwm fel Cynnyrch', y man cychwyn yw penderfynu ar ddeilliannau dysgu wedi'u diffinio ymlaen llaw.

Yn y trydydd model - 'Cwricwlwm fel Proses', y man cychwyn yw ystyried datblygiad y dysgwr.

Rydyn ni'n mynd i ddechrau gyda 'Cwricwlwm fel Cynnwys'.

Gyda'r model cwricwlwm hwn, mae penderfyniadau am yr hyn sy'n mynd i mewn i gwricwlwm yn dechrau gyda'r syniad bod gwybodaeth pwnc/disgyblaethol yn gynhenid werthfawr. Pan wneir penderfyniadau am yr hyn a ddylai neu na ddylai fynd i mewn i gwricwlwm, fe'u gwneir ar y sail bod rhywfaint o wybodaeth yn werthfawr ynddi'i hun – yn aml oherwydd ei bod yn cael ei **chydnabod felly'n gymdeithasol a diwylliannol.** Mae'r cyfiawnhad dros yr hyn sy'n mynd i mewn i'r cwricwlwm felly **yn seiliedig ar benderfynu pa wybodaeth sydd fwyaf gwerthfawr i ddisgyblion ei dysgu** – a dyma **sy'n llywio** cynllun y cwricwlwm ac arferion ystafell ddosbarth.

Mae gwybodaeth sy'n werthfawr yn ddiwylliannol yn nodweddiadol wedi'i strwythuro a'i chyflwyno i adlewyrchu pynciau neu ddisgyblaethau academaidd sefydledig ac ystyrir addysg fel y broses o drosglwyddo'r brif wybodaeth a diwylliannau hyn i'r dysgwyr. Mae cwricwla sy'n tynnu ar y model hwn felly yn tueddu i gael eu trefnu o amgylch pwnc ysgol.

8. Yr ail fodel cwricwlwm y mae Kelly yn ei ddisgrifio yw 'Cwricwlwm fel Cynnyrch': Man cychwyn y model hwn yw'r deilliannau neu'r amcan rydych chi'n disgwyl i ddysgwyr eu cyflawni.

Cyfeirir at hyn weithiau fel y dull 'nodau ac amcanion' ac mae'n eithaf toreithiog mewn rhanbarthau fel yr Unol Daleithiau lle mae cwricwla'n cael eu hadeiladu o amgylch safonau y mae dysgwyr i'w bodloni. Datblygodd y model cwricwlwm hwn yn yr 20fed ganrif o ddulliau addysgu a dysgu'r cwricwlwm sy'n deillio o seicoleg ymddygiadol a'i safbwynt ar ddysgu fel newid ymddygiad. Dywed Pritchard (2018) fod ymddygiadaeth yn 'ddamcaniaeth dysgu sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau y gellir eu gweld ac yn diystyru unrhyw weithgaredd meddyliol. Caiff dysgu ei ddiffinio'n syml fel caffael ymddygiad newydd.'

Mae'r model cwricwlwm hwn yn ystyried dysgu fel gwaith llinol ar y cyfan tuag at gyflawni canlyniadau dysgu rhag-benodol. Fodd bynnag, mae cynllunio'r cwricwlwm yn gweithio tuag yn ôl o'r deilliannau. Yna caiff dysgu ei fesur trwy brofi neu asesu perfformiad dysgwyr yn

erbyn y deilliannau hyn. Weithiau defnyddir tacsonomegau fel Bloom's neu Biggs and Collis' neu Solo i fframio'r deilliannau dysgu yn ystod y cam cynllunio – gall y rhain hefyd gael eu galw'n amcanion dysgu. Mae SCDA (SOLO) yn cymryd ei enw o ddiben y dacsonomeg sy'n canolbwyntio ar **S**trwythur y **C**anlyniad **D**ysgu a **A**rsylwyd (**S**tructure of the **O**bserved **L**earning **O**utcome), fel ffordd o ddosbarthu deilliannau dysgu yn ôl eu cymhlethdod.

Gyda'r model hwn o gynllunio'r cwricwlwm, ystyrir bod gan addysg ddiben cyfryngol: mae'n ddefnyddiol nid o ran y prosesau dysgu o fewn addysg, ond o ran pa ddeilliannau y mae addysg yn arwain atynt erbyn diwedd y daith addysg. Mae'r cwricwlwm fel arfer yn cael ei drefnu o amgylch pynciau ac mae Kelly yn ysgrifennu bod cyfuno'r modelau cynnyrch a chynnwys yn dod yn sail i Ddysgu Meistrolaeth.

9. Fel yr eglura Kelly, nid yw'r dull proses yn dechrau gydag ystyried y wybodaeth i'w throsglwyddo neu â'r canlyniadau neu'r amcanion dysgu, mae'n dechrau drwy ystyried datblygiad y dysgwr. Dyna pam y cyfeirir at y model hwn hefyd fel y model datblygu dysgwyr.

Gyda'r dull hwn o gynllunio'r cwricwlwm, fel y dywed McKernan, mae angen ystyried y cwricwlwm fel profiad addysgol parhaus: proses, yn hytrach na chynnyrch. Gellir defnyddio'r term proses mewn gwahanol ffyrdd mewn addysg. Yma, mae'n cyfeirio'n benodol at y broses o ddatblygu dysgwyr ac at natur cynllun y cwricwlwm fel un hyblyg a phenagored yn hytrach na'i fod wedi'i bennu ymlaen llaw. Y dull penagored hyblyg hwn sy'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer twf a datblygiad dysgwyr. Mae'r cwricwlwm hefyd yn tueddu i beidio â chael ei drefnu o amgylch pynciau, ond i bwysleisio meysydd dysgu ehangach a dulliau rhyngddisgyblaethol.

Hanfod y model proses yw peidio â gweld dysgu o ran amcanion tymor byr, ond meddwl yn ehangach am ddatblygiad hirdymor. Er enghraifft, gyda Chwricwlwm i Gymru, mae'r datblygiad hirdymor eang mewn perthynas â'r 4 Diben.

Mae model proses y cwricwlwm yn seiliedig ar y syniad o addysg fel datblygiad potensial dynol: yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr. Mewn perthynas â'r model proses, mae McKernan yn dweud: 'i'w roi yn syml, nid yw addysg yn ymwneud yn gymaint â chyrraedd, ag â chyrraedd targedau, ag y mae'n ymwneud â theithio gydag angerdd, a bod â diddordeb mewn profiadau gwerth chweil wrth law'.

Mae Priestley a Humes yn nodi bod cwricwla proses wedi'i seilio 'o amgylch barn o'r hyn y dylai oedolyn ymreolaethol fod a phroses ddysgu (yn aml yn ddeialog, yn seiliedig ar ymholiad a thrwy brofiad) a allai fod yn llwybr i gyflawni'r cyflwr hwn… cwricwlwm i alluogi myfyrwyr i "ddod i bresenoldeb" … fel unigolion unigryw.

Rydym yn darparu mwy o wybodaeth am yr holl fodelau cwricwlwm yn yr adran meddwl ar waith, lle rydym yn eu cysylltu â gwahanol ddulliau addysgu ac asesu, ond am y tro, gadewch i ni edrych ar pam mae'r modelau'n bwysig yn ymarferol.

10. **Pam fod y modelau hyn yn bwysig yn ymarferol?**

- Mae pob model cwricwlwm yn seiliedig ar ddamcaniaethau ac arferion addysgol gwahanol ac yn tynnu oddi arnynt, felly mae pob model yn awgrymu gwahanol ffyrdd o greu cwricwlwm mewn ymarfer ystafell ddosbarth.
- Gall cwricwlwm, addysgeg ac asesu nad ydynt wedi'u halinio, olygu bod y cwricwlwm a addysgir yn dod yn wahanol iawn i'r cwricwlwm a fwriedir
- Gall diffyg aliniad hefyd effeithio ar gydlyniad y cwricwlwm: mae Sullanma et al, yn esbonio cwricwlwm cydlynol fel un sydd ag 'undod a chyswllt rhwng y nodau, y cynnwys, arferion cyfarwyddiadol, profiadau dysgu ac asesiadau'.

Wrth sôn am aliniad, nid ydym yn sôn am fodel cyflawni lle mae cwricwlwm craidd a lle mae pawb yn ei gyflwyno yn yr un ffordd i raddau helaeth. Gydag aliniad, mae lle i greu cwricwlwm yn lleol sy'n ystyried cyd-destunau lleol a diddordebau ac anghenion dysgwyr. Fel y mae Mark Priestley a'i gydweithwyr yn ysgrifennu: 'mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn fwy na dim ond cyfryngau goddefol sy'n gweithredu – neu… yn darparu – cynnyrch cwricwlwm rhywun arall; yn lle hynny, maent yn *gwneud* y cwricwlwm yn eu cyd-destunau eu hunain ochr yn ochr â nifer o actorion cymdeithasol eraill, gan gynnwys eu myfyrwyr.' (Priestley et al, 2021)

Fodd bynnag, os yw llunio'r cwricwlwm lleol yn dehongli'r cwricwlwm mewn llawer o wahanol ffyrdd, a rhai ohonynt wedi'u cam-alinio â'r model sy'n sail i fframwaith y cwricwlwm, yna – i ddefnyddio trosiad Jenny Poskitt, mae'r system mewn perygl o hedfan i gyfeiriadau gwahanol. Mae hefyd yn golygu efallai nad yw profiadau disgyblion o'r cwricwlwm a addysgir yn cyd-fynd â'r dulliau o ymdrin â chynnwys, addysgeg ac asesu a awgrymir gan fframwaith y cwricwlwm.

<u>Mae hyn yn golygu bod cydraddoldeb o fewn ac ar draws y system addysg yn heriol iawn i'w gyflawni.</u>

11. Wrth symud ymlaen byddwn yn defnyddio dau derm i drafod Cwricwlwm i Gymru a'i wireddu:

<u>Rydym yn cyfeirio at </u>Gwricwlwm i Gymru fel rhywbeth sydd â **chyfeiriadedd proses**

Mae Gwireddu Cwricwlwm i Gymru yn ymarferol yn awgrymu defnyddio **dull proses** o ddysgu, addysgu, asesu a chynnydd

Rydym yn nodi'r gwahaniaeth hwn oherwydd bod y gair **cyfeiriadedd** yn cyfleu unigrywiaeth Cwricwlwm i Gymru fel cwricwlwm sy'n cael ei arwain gan bwrpas. Mae'n cyd-fynd yn fwyaf llawn â'r model proses yn ei ragflaeniad o'r 4 diben.

Rydym hefyd yn defnyddio'r term **dull** proses i ddangos y newid mewn meddwl ac ymarfer y mae cyfeiriadedd proses yn ei awgrymu o ran creu dysgu ac addysgu ar lefel ystafell ddosbarth, ac o ran meddwl am asesu a chynnydd.

Gwerthfawrogwn y gallai defnyddio dau derm ymddangos yn ddryslyd, ond wrth inni symud ymlaen y peth allweddol i'w gofio yw'r newid yn y meddwl y mae cyfeiriadedd proses yn ei olygu ar gyfer sut yr ydym yn mynd ati i greu addysgu a dysgu yn lleol.

12. Mae mabwysiadu dull proses o greu cwricwlwm yn awgrymu ffyrdd penodol o feddwl am gynnwys, addysgu, dysgu, asesu a sut rydym yn meddwl am gynnydd dysgwyr. Dechreuwn drwy archwilio hyn yn seminar 1 lle byddwn yn trafod beth mae dull proses yn ei olygu ar gyfer creu cwricwlwm, ar gyfer rôl gwybodaeth yn y cwricwlwm, ac ar gyfer rôl yr athro. Cynhyrchwyd y seminar hwn ar gyfer y grŵp dylunio ar y cyd i gefnogi eu meddwl am ddylunio cwricwlwm.

Yn dilyn y seminar mae taflen fer gyda chwestiynau adfyfyriol i ystyried cydlyniad y cwricwlwm mewn ychydig mwy o ddyfnder.

Yna mae taflen hirach sy'n ailadrodd modelau cwricwlwm Kelly i ddarparu mwy o wybodaeth, yn enwedig am yr hyn y mae pob model yn ei awgrymu ar gyfer sut rydym yn meddwl am y cwricwlwm, addysgu, dysgu ac asesu ar waith. Yna mae'r daflen hon yn cynnwys cwestiynau adfyfyriol i archwilio pa fodel cwricwlwm y mae eich arfer presennol yn cyd-fynd orau ag ef.

Yn dilyn hyn, awn ymlaen wedyn i archwilio beth allai dull proses ei olygu o ran sut rydym yn deall asesu a chynnydd yn adran 2. Gwneir hyn drwy ddau fewnbwn seminar a ddatblygwyd, unwaith eto, ar gyfer y grŵp dylunio ar y cyd.